COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 19 IONAWR 2023, AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | M J Evans | D T Harrison | E Richards |
| T Thomas | AJ Williams | E D Winstanley | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Jones a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Victoria Adams | Interim Finance Manager – Budget Management: Communities, Education and Family Support |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

6. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Parch Ganon Edward Evans fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Gyfun Bryntirion.
Datganodd y Cynghorydd Melanie Evans fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed.
Datganodd y Cynghorydd Jon-Paul Blundell fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr Ysgol ym Meithrinfa ac Ysgol Babanod Cefn Glas ac fel Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gyfun Bryntirion.
Datganodd y Cynghorydd Richard Collins fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig a Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Plasnewydd.
Datganodd Lynsey Morris fuddiant personol yn ei swydd fel Rhiant Lywodraethwr yn Ysgol Gyfun Maesteg.
Datganodd y Cynghorydd Tim Thomas fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr Cymunedol yng Ngholeg Cymunedol Y Dderwen ac Ysgol Gynradd Brynmenyn.
Datganodd y Cynghorydd Amanda Williams fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gyfun Brynteg ac Ysgol Gynradd Coety.
Datganodd y Cynghorydd Hywel Williams fuddiant personol yn ei swydd fel Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Abercerdin.
Datganodd y Cynghorydd Alex Williams fuddiant personol gan fod ei bartner yn athrawes mewn Ysgol Gynradd mewn Awdurdod Lleol arall.

7. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023-24 I 2026-27

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd grynodeb o'r adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Pwyllgor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft 2023-24 i 2026-27, oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a'r meysydd yn y gyllideb a dargedwyd ar gyfer

arbedion angenrheidiol. Roedd y strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2023-2027 a chyllideb refeniw ddrafft fanwl ar gyfer 2023-24.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd a gwahoddodd Benaethiaid cynrychioliadol a oedd yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Fforwm Cyllidebau'r Ysgolion i wneud datganiadau, ac wedyn Aelod y Cabinet a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Mynegodd cynrychiolwyr y Prifathrawon bryder dybryd ynglŷn â'r gostyngiad arfaethedig o 2% yng nghyllidebau ysgolion gan ddweud y gallai hyn arwain at leihad yn y gweithlu, diffyg yn y cyllidebau o bosibl ac effaith ar safonau, yn enwedig pe bai'r gostyngiadau hyn yn parhau bob blwyddyn, gan gael effaith gronnol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â phwnc cyllidebau dirprwyedig ysgolion gyda phryderon yn cael eu mynegi gan Aelodau, gan ailadrodd pryderon cynrychiolwyr y prifathrawon, ynghylch yr effaith bosibl a gâi hyn ar ysgolion a staffio, yn enwedig ar y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd angen cymorth ychwanegol. Er gwaethaf sicrwydd gan Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet ynghylch cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer codiadau cyflog, tynnodd y Pwyllgor sylw at yr effaith negyddol y gallai'r gostyngiad o 2% yng nghyllidebau ysgolion ei chael ar staff cymorth mewn ysgolion, gan effeithio felly ar y disgyblion mwyaf agored i niwed.

Codwyd materion pellach ynghylch y goblygiadau y gallai'r gostyngiad hwn eu cael i ysgolion oedd â chyllidebau diffygiol eisoes, megis ysgolion newydd, a'r ffaith y gallai'r toriad hefyd arwain at ysgolion eraill yn profi diffyg yn eu cyllidebau. Holodd yr Aelodau hefyd ynghylch cost unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n digwydd o ganlyniad ac a fyddai hyn yn gwrthbwyso'r arbedion oedd yn ofynnol. Nododd swyddogion fod rhai ysgolion yn nodi diffyg yn y gyllideb ac y byddent hwy a'r ysgolion oedd yn rhagweld gwarged yn eu cyllidebau yn cael eu cynorthwyo ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd arfaethedig. Dywedodd Swyddogion nad oedd y gostyngiad arfaethedig o 2% o reidrwydd yn golygu gostyngiad mewn staffio na gyrru ysgolion i gael diffyg yn eu cyllideb, gan ddangos sut y gallai gael ei liniaru gan nifer o ffactorau gan gynnwys cynnydd yn nifer y disgyblion, addasiadau ôl-weithredol yn y gyllideb a chyllid grant. Fodd bynnag, cytunai Swyddogion mai mater i ysgolion oedd archwilio sut y byddent yn cwrdd â'r gostyngiad a allai arwain at ddiswyddo staff na ellid eu hadleoli, a byddai angen ystyried costau gwneud hyn. Lle roedd gan ysgolion ddiffyg eisoes, roedd gofyniad statudol iddynt sefydlu cynllun adfer a byddai'r Awdurdod Lleol yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio'u cyllideb lle bo angen, er mwyn eu cael yn ôl i gyllideb gadarnhaol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y graddau yr oedd yr awdurdod lleol yn defnyddio ei bartneriaid ac yn cael gwerth am arian, a dywedwyd wrthynt, lle roedd partneriaid yn cael eu defnyddio, eu bod yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u dwyn i gyfrif, megis gyda Chonsortiwm Canolbarth y De. Lle nodwyd meysydd ar gyfer mesurau neu wasanaethau mwy cost-effeithiol, dywedodd Swyddogion fod hyn wedi cael ei wneud ac y byddai hynny'n parhau i'r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cael eu lobïo am gyllid i gefnogi hyn a bod rhywfaint o gyllid wedi dod i law, megis yn yr achos i fodloni'r gofynion newydd o dan Ddeddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Tynnodd swyddogion sylw, fodd bynnag, at y ffaith y byddai heriau sylweddol i gynnal gwasanaethau pan ddeuai cyllid grant i ben, i gynnal rolau pwysig fel Cydlynwyr ADY, a phan na châi ond cyllid rhannol ei ddarparu, fel oedd y sefyllfa gyda chyflwyno menter Prydau Ysgol Rhad ac Am Ddim Cyffredinol (UPFSM).

Arweiniodd hyn at drafodaeth bellach ynghylch prydau ysgol am ddim a mynegwyd pryderon gan y Pwyllgor, Aelodau'r Cabinet a Swyddogion ei fod yn fwy na darparu

ceginau a staff yn unig. Roedd yn rhaid ystyried logisteg ac ystyriaethau eraill megis offer, a lled o fewn neuaddau ysgol i bob plentyn dderbyn Pryd Ysgol am Ddim, oedd yn ei hanfod yn golygu pwysau posibl ar y gyllideb refeniw a'r gyllideb cyfalaf. Rhoddodd Aelodau'r Cabinet sicrwydd i'r Pwyllgor fod hyn yn cael ei drafod gyda'r Gwasanaeth Arlwyo yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Cododd y Pwyllgor Risg Cyflawni hefyd fel achos pryder, o ystyried y ffaith bod 88% o'r gostyngiadau a nodwyd yn y gyllideb wedi cael eu rhestru'n Goch o ran statws risg eu cyflawni a dim ond 7% a nodwyd fel newidiadau polisi. Holai'r Aelodau a oedd angen cynigion mwy radical yn wyneb y sefyllfa ariannol bresennol, megis ystyried lleihau cyllid ar gyfer gwasanaethau dewisol.

Dywedodd Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet fod gwasanaethau dewisol megis Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (HTST) a darpariaeth Feithrin wedi cael eu hystyried o'r blaen. Fodd bynnag, gyda golwg ar y cyntaf, nid oedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi cefnogi hyn ac o ran yr olaf, gwelwyd tystiolaeth yn ystod y pandemig fod plant yn elwa'n fawr o ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion. Ar fater lleoedd am dâl ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol, dywedwyd bod adolygiad yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru oedd yn cynnwys ystyried safonau cwmnïau bysiau i weld a allent gyrraedd y safonau gofynnol i ailgyflwyno lleoedd am dâl i ddisgyblion, a allai greu ffrwd incwm yn y maes hwn.

Roedd y meysydd pellach a ystyriwyd ac a drafodwyd yn cynnwys y cynnydd mewn costau ynni a mesurau arbed o ganlyniad oedd yn cael eu cyflwyno i ysgolion i wrthweithio hyn, yn ogystal â datblygiadau tai newydd a'r effaith a gâi hyn ar Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig ysgolion. Codwyd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor a'r ymgynghoriad ar y gyllideb hefyd, a dywedwyd wrth y Pwyllgor ei bod yn waith cydbwyso dyrys a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Gellid amddiffyn ysgolion, er enghraifft, pe bai Treth y Cyngor yn cynyddu ymhellach. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i hwn fod yn benderfyniad pwrpasol, fyddai'n ffafrio gwasanaethau yn erbyn codiad pellach yn y dreth gyngor.

Adroddodd Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet fod pob cyfarwyddiaeth wedi gorfod cyflwyno cynigion i leihau'r gyllideb er mwyn cael cyllideb gytbwys a bod cyfres o ddewisiadau wedi cael eu hystyried gyda phrifathrawon, gan gynnwys gostyngiad o 1%, 2% a 5%. Dywedwyd wrth yr aelodau nad mater i'r awdurdod lleol oedd dweud wrth ysgolion sut i wneud yr arbedion hyn, ond argymhellid ystyried pob maes cyn edrych ar leihau nifer y staff. Byddai tîm Cyllid yr awdurdod lleol yn rhoi cymorth ac yn gweithio gydag ysgolion ar eu cyllidebau, pe bai arnynt angen hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am eu presenoldeb.

**PENDERFYNWYD:**
Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r atodiadau, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r Argymhellion a ganlyn i'w cydgrynhoi a'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft, gan gynnwys y pwysau arfaethedig ar y gyllideb a'r cynigion i leihau'r gyllideb o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn, fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb:

**Argymhellion**

**Cydweithio a Gwerth am Arian**

1. Ar ôl holi swyddogion a oedd yr Awdurdod yn defnyddio ein partneriaid i'w llawn botensial, nid oedd yr Aelodau'n teimlo 100% yn dawel eu meddwl ynghylch hyn, gan ddefnyddio enghraifft Consortiwm Canolbarth y De. Argymhellodd yr Aelodau felly fod y Cabinet a Swyddogion yn ystyried tystiolaeth o gydweithio gyda

phartneriaid, fel rhan o'u trafodaethau ar y cynigion cyllidebol, er mwyn sicrhau gwerth am arian ar gyfer cyfnod llawn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-2027.

**Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion**

2. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd chwarae ei rhan o ran mantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, yn dilyn y pryderon dybryd a amlygwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Fforwm Cyllidebau'r Ysgolion ynghylch dichonoldeb y cynnig i leihau'r gyllideb o 2% a'r ffaith nad yw'r cynigion hyn wedi cael eu datblygu'n llawn eto a'u bod yn risg uchel o ran eu cyflawni, mae'r Pwyllgor yn argymell:

   a) bod y Cabinet yn lleihau arbedion cyllideb arfaethedig yn erbyn Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion i 1%.
   b) bod y Cabinet yn ystyried yr holl ddewisiadau dewisol sydd ar gael iddynt ar draws y cyllidebau ledled y gorfforaeth gyfan a Chyfarwyddiaethau eraill, i gynnwys y gweddill o £1,059,000 sy'n ofynnol o ganlyniad i leihau'r gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb addysg o 1% er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor

**Gwasanaethau Dewisol a Statudol**

3. Tra'n cydnabod manteision gwasanaethau dewisol o ran eu potensial i atal problemau a gwariant pellach yn y dyfodol, o ystyried y sefyllfa ariannol gyfredol gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn argymell:

   a) bod y Cabinet yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r holl ddewisiadau dewisol sydd ar gael iddynt ar gyfer cynigion i leihau'r gyllideb a'u bod yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn wrth ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
   b) y dylai cyfran uwch o'r gostyngiadau yn y gyllideb fod o ganlyniad i newidiadau polisi

4. Mae'r Pwyllgor yn argymell ymhellach cynnal adolygiad o'r holl wasanaethau dewisol yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd er mwyn gwerthuso cost eu darparu a'r gwerth y maent yn ei roi i'r Awdurdod Lleol a'i drigolion, er mwyn llywio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y dyfodol gyda golwg ar ddiogelu cyllidebau dirprwyedig ysgolion gymaint ag y bo modd.

**Ymrwymiadau Deddfwriaethol Cenedlaethol**

5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn sôn wrth Lywodraeth Cymru am yr angen i sicrhau bod yr holl ymrwymiadau Deddfwriaethol Cenedlaethol yn cael eu hariannu'n llawn er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r Cyngor eu cyflawni mewn modd effeithlon.

**Staff Asiantaeth Ysgolion**

6. Holodd y Pwyllgor ynghylch y defnydd o staff asiantaeth mewn ysgolion ac argymhellodd edrych i weld a allai ysgolion fabwysiadu dull gweithredu cydlynol ar draws y Fwrdeistref Sirol a allai, o bosibl, gynorthwyo gyda chostau staff llanw ar gyfer pethau fel salwch.

**<u>Sylwadau</u>**

**Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion**

7. Roedd gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch effaith arbediad effeithlonrwydd o 2% ar Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a'r effaith y gallai hyn ei chael o ganlyniad. Yn achos pryder arbennig roedd yr effaith y gallai hyn ei chael ar blant agored i niwed, gan fod y wybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfarfod yn awgrymu y gallai'r gostyngiad hwn yn y gyllideb arwain at ddiswyddiadau gorfodol posibl a fyddai'n debygol o effeithio ar staff cymorth ysgolion sydd, er enghraifft, yn cynorthwyo disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anawsterau ymddygiad, problemau presenoldeb, diogelu a lles. Dywedodd y Pwyllgor y gallai hyn arwain at gostau uwch posibl i'r Awdurdod Lleol yn nes ymlaen pe na bai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n ddigonol ac yn ddigon buan mewn ysgolion.

8. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai cost bosibl pecynnau diswyddo gorfodol orbwyso'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o 2%, a'r perygl o golli staff dysgu profiadol.

9. Yn ogystal â diswyddiadau, mynegodd y Pwyllgor bryderon cryf ynghylch y posibilrwydd y byddai mwy o ysgolion yn wynebu diffyg yn eu cyllideb o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gyllideb o 2%, ac y byddai o bosibl yn gwaethygu'r sefyllfa ar gyfer y rhai yr oedd ganddynt ddiffyg ariannol eisoes. Dangosodd yr Aelodau bryder arbennig ynglŷn ag ysgolion newydd a'u cyllidebau, o ystyried na allent fantoli eu cyllideb am beth amser oherwydd nad oeddent yn llawn eto.

**Darparu Cinio Ysgol Am Ddim**

10. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch darparu prydau ysgol am ddim i ysgolion cynradd yn y dyfodol gan fod angen nid yn unig staff a chyfarpar cegin ychwanegol, ond hefyd lle ychwanegol i ddisgyblion oherwydd y cynnydd tebygol yn y nifer fyddai'n manteisio ar y ddarpariaeth. Roedd estyniadau ar gyfer ysgolion eisoes yn cael eu trafod ond mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch goblygiadau cyllidebol posibl y gwasanaeth hwn ar gyfer y dyfodol, o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf.

**Blaenraglen Gwaith Craffu**

O ystyried y pryderon y tynnwyd sylw atynt yn y sylwadau uchod, cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith pellach ar y materion canlynol fel rhan o'u blaenraglen waith yn y dyfodol:

- Darparu Cinio Ysgol am Ddim i ysgolion cynradd – manylion pellach am gyllid yn ogystal ag ystyried darparu staff, offer cegin a lle i ddisgyblion.

- Monitro goblygiadau unrhyw ostyngiad arfaethedig yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion – ar gyfer cyllidebau ysgolion, strwythurau staffio, diswyddiadau, ac unrhyw effaith o ganlyniad ar ddisgyblion.

- Consortiwm Canolbarth y De – Sut maent wedi darparu gwerth ar gyfer yr ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol.

- Dalgylchoedd ysgolion, niferoedd derbyn disgyblion ac adeiladau ysgolion newydd

- Adolygu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol – gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddarparu lleoedd am dâl.

8. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00